ADRODDIAD I:	Y Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	13 Mehefin 2018
LEAD OFFICER:	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706451
PWNC:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2018/19

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm yn Atodiad A, er ystyriaeth a chymeradwyaeth yr Aelodau.

3.0 GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr aelodau yn gwybod y cymeradwywyd proses 12 mis dreigl ar gyfer eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Trwyddedu.

3.2 Bydd yr aelodau yn nodi nad yw'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod heddiw yn cynnwys unrhyw adroddiadau yn unol â'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gynigiwyd yn flaenorol, a hynny oherwydd bod swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar ddiweddaru ffeiliau data yn dilyn symud o un gronfa ddata i un arall.

3.3 Gan fod hyn yn rhan allweddol o fusnes y Cyngor, mae'r swyddogion yn cynnig y dylent barhau â'r diweddariad data hwn dros fisoedd yr haf a'r hydref er mwyn gallu bod yn sicr y gellir monitro'r gwaith craidd yn ddigonol a hefyd er mwyn caniatáu hysbysiadau adnewyddu effeithiol ac ymatebion effeithlon i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau cysylltiedig â'r gofrestr gyhoeddus.

3.4 Hoffai'r swyddogion gadarnhau y bydd unrhyw fusnes heb ei gynllunio h.y. gwrandawiadau gyrwyr, yn parhau yn ôl yr angen.

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig fel y manylir yn yr Atodiad.